# Y Rheol 85 Mlynedd

## Cyflwyniad

Mae’r Oedran Pensiwn Arferol (OPA) yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn gysylltiedig â’ch **Oedran Pensiwn y Wladwriaeth** (OPW), gydag isafswm oedran o 65 (ond os bydd eich OPW yn newid yn y dyfodol, yna bydd eich OPA yn y CPLlL yn newid hefyd). Gallwch ymddeol yn wirfoddol o 55 oed ymlaen, ond gallai eich buddion leihau’n actiwarïaidd i gymryd i ystyriaeth fod eich pensiwn yn cael ei dalu’n gynnar cyn eich OPA, fodd bynnag, efallai y cewch eich gwarchod rhag rhan o’r gostyngiad hwn o leiaf, oherwydd y Rheol 85 Mlynedd.

## Beth yw’r Rheol 85 Mlynedd?

Efallai bydd y Rheol 85 Mlynedd yn gwarchod rhai neu bob un o’ch buddion rhag cael eu lleihau os penderfynwch ymddeol cyn eich OPA. Mae lefel yr amddiffyniad yn dibynnu ar eich dyddiad geni. Er mwyn bodloni’r Rheol 85 Mlynedd, mae’n rhaid eich bod wedi bod yn gwneud cyfraniadau pensiwn i’r CPLlL rhwng 1 Ebrill 1998 a 30 Medi 2006 a rhaid i’ch oedran ynghyd â’ch aelodaeth yn y cynllun (y ddau wedi eu mesur mewn blynyddoedd cyfan) adio i 85 neu ragor ar eich ymddeoliad.

## A wyf wedi fy niogelu o dan y Rheol 85 Mlynedd?

Os oeddech chi’n talu cyfraniadau pensiwn i mewn i’r CPLlL ar 30 Medi 2006 ac yn penderfynu ymddeol cyn eich OPA, ar ôl cwrdd ag amodau'r Rheol 85 Mlynedd, bydd gennych rywfaint o ddiogelwch.

Os cawsoch eich **geni ar neu cyn 31 Mawrth 1956**, bydd yr holl fuddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2016 yn cael eu talu heb ostyngiad. Bydd y buddion o 1 Ebrill 2016 ymlaen yn cael eu gostwng am y cyfnod o’ch dyddiad gadael tan eich OPA.

Os cawsoch eich **geni ar neu rhwng 1 Ebrill 1956 ac 31 Mawrth 1960**,

bydd yr holl fuddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2008 yn cael ei talu heb ostyngiad, ond bydd yr holl fuddion a gronnwyd rhwng 1 Ebrill 2008 ac 31 Mawrth 2020 yn cael eu gostwng ar sail 'taprog' am y cyfnod o'ch dyddiad gadael hyd at oed 65 (yr oedran ymddeol arferol o dan Gynllun 2008). Bydd unrhyw fuddion a gronnwyd ar ôl 1 Ebrill 2020 yn cael eu gostwng am y cyfnod o'ch dyddiad gadael tan eich OPA.

Os cawsoch eich **geni ar neu ar ôl 1 Ebrill 1960**, bydd yr holl fuddion a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2008 yn cael eu talu heb ostyngiad, ond bydd buddion a gronnwyd rhwng 1 Ebrill 2008 hyd at eich dyddiad gadael yn cael eu gostwng yn llawn. Ar gyfer aelodaeth o 1 Ebrill 2008 hyd at 31 Mawrth 2014, bydd y gostyngiad yn berthnasol am y cyfnod o'ch dyddiad gadael hyd at eich pen-blwydd yn 65. Bydd eich aelodaeth o 1 Ebrill 2014 ymlaen yn cael ei ostwng am y cyfnod o'ch dyddiad gadael hyd at eich OPA.

## Faint o 'ostyngiad' fydd?

Bydd eich buddion yn gostwng yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD). Bydd y cyfnod o'ch dyddiad gadael tan yr oedran ymddeol priodol yn cael ei fesur mewn blynyddoedd a diwrnodau, felly bydd canran y gostyngiad yn cael ei addasu ar gyfer blynyddoedd rhannol. (Daeth y ffactorau gostwng hyn i rym ar 03/07/2023).

| Nifer o Flynyddoedd yn Gynnar | Gostyngiad i'r Pensiwn Blynyddol | Gostyngiad i'r Lwmp Swm Awtomatig |
|---|---|---|
| 0 | 0% | 0% |
| 1 | 4.9% | 1.7% |
| 2 | 9.3% | 3.3% |
| 3 | 13.5% | 4.9% |
| 4 | 17.4% | 6.5% |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | 20.9% | 8.1% |
| 6 | 24.3% | 9.6% |
| 7 | 27.4% | 11.1% |
| 8 | 30.3% | 12.6% |
| 9 | 33.0% | 14.1% |
| 10 | 35.6% | 15.5% |
| 11 | 39.5% | Ddim yn berthnasol |
| 12 | 41.8% | Ddim yn berthnasol |
| 13 | 43.9% | Ddim yn berthnasol |

## A fydd y Rheol 85 Mlynedd yn weithredol os ydw i'n ymddeol o 55 oed ymlaen?

Mae modd i chi ymddeol a derbyn eich buddion pensiwn o 55 oed ymlaen heb ganiatâd eich cyflogwr. Os byddwch yn penderfynu ymddeol yn wirfoddol rhwng 55 a 60 mlwydd oed, ni fydd unrhyw ddiogelwch dan y Rheol 85 Mlynedd yn digwydd yn awtomatig, a bydd eich buddion felly yn cael eu gostwng yn llawn. Fodd bynnag, os byddwch yn penderfynu ymddeol ar neu ar ôl 60 oed, bydd unrhyw ddiogelwch dan y Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol. Mae'r gallu i gymhwyso'r Rheol 85 Mlynedd i ymddeoliad gwirfoddol rhwng 55 a 60 oed yn ddewis i'ch Cyflogwr. Bydd gan eich Cyflogwr bolisi ar y mater hwn.

## Beth os caiff fy swydd ei dileu neu os bydd rhaid imi ymddeol ar sail effeithlonrwydd?

Os bydd eich Cyflogwr yn dileu eich swydd neu os bydd rhaid ichi ymddeol ar sail effeithlonrwydd, cyn belled â'ch bod chi'n 55 oed neu'n hŷn, bydd eich buddion yn cael eu talu ar unwaith heb ostyngiad (yn amodol ar y cap taliad gadael o £95,000).

## Beth os oes rhaid i mi ymddeol oherwydd afiechyd?

Os cewch eich gorfodi i ymddeol oherwydd afiechyd, caiff eich buddion eu talu ar unwaith heb ostyngiad ac efallai y cewch hyd yn oed ychwanegiad iddynt fel ystyriaeth i'ch salwch. Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at y **ffeithlen Salwch.**

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn Gwynedd:

Ffôn: 01286 679982
E-bost: pensiynau@gwynedd.llyw.cymru

## Ymwadiad

Nid yw’r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai’r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/
Helpwr Arian: Choosing a financial adviser (moneyhelper.org.uk)